# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Gloria J. Tanner | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Mae gennyf lwyth gwaith llawn sy'n cynnwys pryderon a chwynion a wnaed gan breswylwyr Ward Mynydd-bach. Roedd y pryderon hynny'n cynnwys tai, sbwriel, pobl ifanc ar feiciau, anghydfodau cymdogion, parcio ceir, tipio anghyfreithlon a thyllau yn y ffordd ymysg eraill.

Roeddwn yn ymdrin â'm hachosion trwy e-bost ac yn ymweld â chartrefi preswylwyr pan gefais wahoddaid.
Roeddwn yn mynd i gyfarfodydd PACT a llywodraethwyr ysgolion yn y ward yn rheolaidd. Mae gennyf berthynas waith dda â staff a rheolwyr swyddfeydd tai rhanbarthol. Roedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSOs) yn aml yn ymweld â fi yn fy nghartref i roi manylion am bethau a oedd yn digwydd yn fy ward.

Roedd fy ward, sef Mynydd-bach yn lle poblogaidd ar gyfer ceffylau wedi'u clymu ac mae hyn yn parhau. Ymunais â sefydliad gwirfoddol lleol o'r enw Cyfeillion Ceffylau Abertawe sy'n ymgyrchu yn erbyn clymu ceffylau yn Abertawe. Rwyf wrthi'n ceisio casglu arian i'r achos teilwng hwn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn hynod brysur i mi fel un o'r cynghorwyr ward a oedd ar ddyletswyddau maerol. Mae'r ail gynghorydd wedi bod yn dost ar adegau amrywiol o'r flwyddyn. Cynyddodd y llwyth gwaith yn ddramatig. Fodd bynnag, goroesais heb gymorth gan y swyddfa gweinyddiaeth. Dyblais nifer y cymorthfeydd yr euthum iddynt gan roeddwn yn cyflenwi ar gyfer cymorthfeydd y Cynghorydd Ceinwen Thomas hefyd. Roeddwn yn cynnal 2 gymhorthfa bob 4 wythnos.

Rwyf wedi gwneud cynnydd sylweddol yn fy ward. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae gennyf broblemau gyda 2 ffordd yn y ward ac rwy'n gweithio gydag aelod perthnasol y Cabinet i geisio datrys materion traffig sy'n gyrru'n rhy gyflym. Rhoddir ystyriaeth i'r mesurau traffig presennol nad ydynt bellach yn addas at y diben.

Trefnais i folardiau gael eu gosod mewn nifer o ardaloedd yn y ward i atal ceir rhag parcio ar ymylon glaswellt a phalmentydd. Roedd busnesau a phreswylwyr yn eu croesawu.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 5 / 8 | 63% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 2 / 3 | 67% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 / 7 | 71% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 1 / 5 | 20% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl | 7 / 8 | 88% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 12 / 13 | 92% |

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Gwasanaethau | 2 / 3 | 67% |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 0 / 2 | 0% |
| **CYFFREDINOL** | **50 / 66** | **76%** |
| | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cyrhaeddiad a Lles | 4 / 6 | 67% |
| Panel Ymchwilio Craffu Mewnfuddsoddi | 1 / 4 | 25% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref | 4 / 7 | 57% |
| Panel Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 8 / 10 | 80% |
| **CYFFREDINOL** | **18 / 28** | **64%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Roeddwn yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd yng Nghaerfyrddin cyn sesiynau hyfforddi ar adegau yn ystod y flwyddyn. Fel cefnogwr "Cyfeillion Ceffylau Abertawe" euthum i gyfarfodydd yn rheolaidd. Rwyf wrthi'n cefnogi ei ymgyrch ac yn casglu arian i'r elusen.
Roeddwn yn mynd i ffeiriau neu ddiwrnodau hwyl amrywiol yn fy ward ac yn cefnogi Cymunedau'n Gyntaf trwy wirfoddoli pan oedd angen.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ceisiais sefydlu grŵp Cyfeillion Parc Solfach gydag ychydig o breswylwyr eraill â diddordeb o Stad y Clâs. Ein nod oedd adfywio Parc Solfach. Cynhaliais gyfarfodydd â swyddog y cyngor cyn ymweliad safle i drafod yr hyn y gellid ei wneud. Ar ôl rhywfaint o drafodaeth, penderfynwyd y byddai'r traul yn enfawr ac ni fyddai cyfraniad o'm Lwfans Amgylcheddol Cynghorydd yn talu amdano.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
26/11/2014 - Difenwi
25/11/2014 - Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad
04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

*Mae'r adran hon er mwyn i chi nodi unrhyw beth arall rydych yn meddwl y dylai'ch etholwyr fod yn ymwybodol ohono.*

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad**: | 22/06/2015 |
|---|---|